# Tasg 2

# Beth amdani?

Edrychwch ar y brawddegau a'r cwestiynau yma:

- Beth am gwrdd nos Sadwrn?
- Wel, dweda rywbeth amdanat ti.
- Beth wyt ti eisiau gwybod amdana i?
- Pam wyt ti eisiau gwybod amdani hi?

Mae **am** yn newid os bydd rhagenw (fi / ti / fe/fo / hi / ni / chi / nhw) ar ei ôl, e.e.
Beth am John? Beth amdano fe / fo?

Beth yw'r ffurfiau cywir?

am + fi

am + ti

am + fe / fo

am + hi

am + ni

am + chi

am + nhw

Llenwch y bylchau.

1. Ble mae'r llyfr? Dw i'n chwilio fe / fo.

2. Maen nhw'n siarad ni.

3. Ydych chi wedi clywed nhw?

4. Mae'r dyn yn enwog – ydych chi wedi darllen fe / fo yn y cylchgrawn?

5. Roedd y rhaglen yn ofnadwy. Dw i ddim eisiau clywed hi.

6. Mae'r tocynnau yma'n ddrud iawn. Ydych chi'n mynd i dalu nhw?

7. Beth i? Hoffwn i fynd i'r gig hefyd.

8. Roedd ei thad yn sôn hi drwy'r nos oherwydd roedd e'n teimlo mor falch.

9. Pwy fydd yn y tîm? Mae Siôn ac Ahmed yn chwarae'n dda eleni. Beth nhw?

10. Beth ni – hoffen ni ddod i'r sinema hefyd!